

## ❖ YR YMGNAWDOLIAD

‘Daeth Brenin yr hollfyd i oedfa ein hadfyd.’

Neges syfrdanol y Nadolig yw mai neb llai na mab tragwyddol Duw oedd y baban a anwyd ym Methlem Jwdea. Hwn yw dirgelwch mwya'r oesoedd, sef dyfodiad y tragwyddol i mewn i fyd amser a'r anfeidrol yn gwisgo meidroldeb.

Ni thrawsnewidiwyd ‘Mab Duw’ i fod yn ‘fab dyn’. Gall yr ymadrodd ‘A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd’ (*BWM*) fod yn gamarweiniol. Y mae'r *BCN* yn rhagori: ‘A daeth y Gair yn gnawd.’ (Ioan 1:14)

Er i'r Mab fod erioed ar ffurf Duw, ac yn gydradd â Duw, rhoddodd heibio wisgoedd ei ogoniant a'i safle aruchel a dyrchafedig ar ddeheulaw y Tad er mwyn cymryd ffurf dyn a safle caethwas. (Philipiaid 2:6–7)

Roedd y baban yn y preseb yn berson unigryw – nid hanner Duw a hanner dyn – ond yn Dduw cyflawn ac yn ddyn cyflawn. Un person ydoedd a chanddo natur ddwyfol a natur ddynol, ac fel y dywedodd Ann Griffiths yn ei hemyn:

‘Yn anwahanol mwy,  
mewn purdeb heb gymysgu  
yn eu perffeithrwydd hwy.’

Fe ddywedir am y ddiweddar Fam-frenhines, a hithau'n Frenhines adeg y rhyfel, pan oedd galw ar bawb i wneud ei ran, iddi hi ar adegau roi heibio ei choron a'i gwisgoedd brenhinol a mynd i lawr i'r gegin a gwisgo ffedog a chymryd safle morwyn gan olchi'r llestri a chrafu tatws a hyd yn oed fynd ar ei gliniau i sgrwbio'r llawr. Roedd hi gymaint o Frenhines yn sgrwbio'r llawr ag ydoedd yn eistedd ar yr orsedd yn ei gwisgoedd brenhinol â'r goron ar ei phen. Roedd Iesu hefyd yn gymaint o Dduw yn ei ffedog ar ei liniau yn golchi traed ei ddisgyblion ag ydoedd ar ddeheulaw y Tad yn y gogoniant. Fel y tystiodd Charles Wesley:

‘Wele Dduwdod yn y cnawd,  
dwyfol Fab i ddyn yn Frawd.’

**Y Geni Gwryfol**

Daeth mab Duw i'r byd yn yr un ffordd â phawb arall – ‘wedi ei eni o wraig’. (Galatiaid 4:4) Ond yn rhyfedd iawn, gwryf oedd y wraig honno. Roedd y geni yn naturiol, ond y cenedlu yn oruwchnaturiol. Nid cyfathrach rywiol naturiol â dyn barodd i Mair feichiogi. Neges syfrdanol Gabriel, yr archangel oedd, ‘Daw'r Ysbryd Glân arnat, a bydd nerth y Goruchaf yn dy gysgodi; am hynny, gelwir y plentyn a genhedlir yn sanctaidd, Mab Duw.’ (Luc 1:35) Medd Dr Fosdick, ‘The Virgin Birth involves a biological miracle, which is unthinkable to the modern mind.’ Datganiad pellach yr archangel oedd, ‘Ni bydd dim yn amhosibl gyda Duw.’ (Luc 1:37)

Rydym eto wyneb yn wyneb â dirgelwch mawr. Rhaid cydnabod bod geni plentyn o wryf yn ddigwyddiad rhyfeddol, goruwchnaturiol, unigryw, sydd y tu hwnt i allu dyn i'w esbonio. Gwirionedd a ddatguddiwyd yw hwn. Nid yw'r ffaith na fedrwn mo'i esbonio yn sail dros ei wrthod a'i wadu. Derbyniwn yn hytrach mewn ffydd gan ddiolch i Dduw am y fath ddatguddiad cyffrous a gogoneddus.

‘Megis nad oedd gan natur ddwyfol yr Arglwydd fam, felly nid oedd gan ei natur ddynol, dad’ (un o'r tadau). Nid plentyn yr Adda cyntaf oedd Iesu; yn hytrach Efe oedd yr Adda diwethaf, pen y ddynoliaeth newydd:

Cadarn Iôr a ddaeth ei hun,  
gwnaeth ei babell gyda dyn:

Duw yn ddyn, fy enaid, gwêl  
Iesu, ein Emanwêl!

**C. H. Jenkins**